

## OWEN, JAMES (1654 - 1706), gweinidog ac athro Ymneilltuol, a diwinydd

**Enw:** James Owen

**Dyddiad geni:** 1654

**Dyddiad marw:** 1706

**Rhiant:** John Owen

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog ac athro Ymneilltuol, a diwinydd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 1 Tachwedd 1654 yn y Bryn (Brynmeini), Abernant, Caerfyrddin, yn ail fab i John Owen. Yr oedd ei fam (na wyddys mo'i henw) yn nith i'r **esgob Thomas Howell** ac i'r llythyrwr **James Howell**; ei thref-tad hi oedd y Bryn, a berthynai i'w thaid Thomas Howell, ficer Cynwyl Elfed ac Abernant a chyn hynny curad Llangamarch - llithrodd Ant. Wood gan ddweud mai yn y Bryn, Abernant, y ganed **James Howell**, oblegid yng Nghefn Bryn, Llangamarch, yr oedd Thomas Howell yn byw ar y pryd. Brodry i James Owen oedd D. J. Owen (gweler dan **Owen, Jeremy**) a **Charles Owen**; troes y naw plentyn at Ymneilltuaeth, serch mai Cafalir, a ddiodeffodd hefyd dros ei frenin, oedd eu tad. Addysgwyd James Owen yn ysgol y frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin; prin y gall y *D.N.B.* fod yn gywir pan ddywed iddo fod dan addysg y Crynwr James Picton, oblegid ymadawodd hwnnw â Dinbych-y-pysgod yn 1658, pan nad oedd James Owen ond 4 oed, ac yng ngharchar y bu wedyn gan mwyaf. Ond tystiodd James Owen ei hun wrth Calamy iddo fod dan addysg **Samuel Jones** ym Mrynlywarch yn 1672-3; bu wedyn dan hyfforddiant **Stephen Hughes** yn Abertawe. Anogwyd ef gan **Henry Maurice** i bregethu yng Ngogledd Cymru; preswyliai dros dro ym **Modfel**, ac ar 23 Ebrill 1676 achwynwyd arno am gadw moddion anghyfreithlon yn Llanybi Eifionydd. Dihangodd o Lŷn at **Hugh Owen**, Bronclydwr, a bu'n cynorthwyo hwnnw (ef, yn 1700, a bregethodd bregeth angladdol **Hugh Owen**). Fis Tachwedd 1676 penodwyd ef yn gaplan i Mrs. Baker, yn Swinney ger Croesoswallt, a chymerth ofal y gynulleidfa Ymneilltuol yn y dref; yno (27 Medi 1681) y bu ef a **Philip Henry** yn dadlau â'r **esgob William Lloyd**. Yn 1690, agorodd academi yr oedd clod mawr iddi; ond ni roes heibio ei bregethu teithiol, oblegid pregethai'n fisol yn Rhuthyn, ac wedyn yn Ninbych, Wrecsam, a Llanfyllin. Ond yn 1700 symudodd i Amwythig, yn gydweinidog â Francis Tallents, a throsglwyddodd ei academi hefyd i'r dref honno - gweler y disgrifiadau ohoni yn ei gofiant ac yn McLachlan, *English Education under the Test Acts*, 81-2. Bu farw 8 Ebrill 1706. Bu'n briod deirgwaith. Er mai fel Annibynnwr y rhestrir ef, yr oedd ynddo ogwydd at Bresbyteriaeth; yn yr un modd, dilynodd Richard Baxter yn ei olygiadau diwinyddol, isel-Galfinaidd a chymedrol. Dengys ei yrfa ei fod yn Ymneilltuwr ymroddedig, ond yma eto ni wrthodai gymrodeddu lle y gellid heb aberthu egwyddor - dau o'i weithiau mwyaf hysbys yw *Moderation a Virtue* 1703, a *Moderation still a Virtue*, 1704, sy'n amddiffyn Ymneilltuwyr a gymunai'n achlysurol yn y llannau ('occasional conformists') er mwyn gallu dal swyddau cyhoeddus. Ceir rhestr o'i weithiau yn y *D.N.B.* Ni cholodd ei gyswllt â Chymru chwaith. Ef a roes i Edmund Calamy fanylion am weinidogion Ymneilltuol Cymru. Cyhoeddodd hefyd amryw lyfrau Cymraeg : *Trugaredd a Barn*, 1687; *Bedydd Plant o'r Nefoedd*, 1693, ateb i'r Bedyddiwr Benjamin Keach; cyfieithiad o *Gatecism Byrraf y Gymanfa* - sef cymanfa Westminster - 1701; a *Hymnau Scrythurol*, 1705 - cynhwyswyd rhai o'r emynau hyn gan **Griffith Jones**, Llanddowror, a **Daniel Rowland** yn eu casgliadau hwythau.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Charles Owen, *Some account of the life and writings of the late pious and learned Mr. James Owen, minister of the gospel in Salop*(Llundain 1709), 1709

Alexander Gordon yn y *Oxford Dictionary of National Biography* ac yn *Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690â€"1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917* (mynegai)

T. Richards, *Religious Developments in Wales, 1654â€"1662* (1923), *Wales under the Indulgence, a Wales under the Penal Code, 1662-1687* (1925) (mynegeion)

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869) dan y blynyddoedd a nodwyd (cymysglyd)

*A History of Carmarthenshire*, ii, 415-6

McLachlan (uchod)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 38340968

Wikidata: Q18756798

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiwedd  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government